

Amgueddfa Cymru



Paratoi ar gyfer Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang

PARATOI EICH SAFBWYNT PERSONOL A'CH GWEITHGAREDD CODI YMWHYDDIAETH

Bydd y gweithgareddau hyn yn eich helpu i baratoi ar gyfer yr Her Fer. Maent wedi'u llunio i'w defnyddio gyda'r Pecyn Ffynonellau cysylltiedig.

Eich her yw paratoi **Safbwynt Personol** a Gweithgaredd **Codi Ymwybyddiaeth** ar y pwnc **Tlodi** ac **Anghydraddoldeb**.

Rhaid i'ch **Safbwynt Personol** gynnwys:

- Gwybodaeth am yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE) ar y pwnc
- Eich barn bersonol am y pwnc **Tlodi** ac **Anghydraddoldeb** gan wneud sylw am **hygrededd neu ddibynadwyedd** y ffynonellau yr ydych yn cyfeirio atynt

YMCHWILIO I DLODI, ANGHYDRADDOLDEB A THOLLAU FFYRDD CYMRU YN Y 19EG GANRIF

GWEITHGAREDD 1: DADANSODDI FFYNONELLAU

Bydd y gweithgaredd hwn yn profi eich gallu i ddadansoddi ffynonellau.

Byddwch yn gwybod o'ch gwersi hanes pa mor bwysig yw gallu dadansoddi ffynonellau a thynnu gwybodaeth ohonynt. Rhaid i chi ddangos eich gallu i ddadansoddi ffynonellau'n effeithiol wrth gyflwyno eich barn bersonol. Wrth ddadansoddi ffynonellau, mae hefyd yn bwysig iawn ystyried pa mor gredadwy neu ddibynadwy yw'r ffynonellau ac i ba raddau y gallwch ymddiried yn y wybodaeth sydd ynddynt.

1. Yn ôl Ffynhonnell 1, pam oedd ffermwyr Cymru yn anhapus yn ystod haf 1839?
2. Astudiwch Ffynonellau 1, 2 a 3. Sut y gwnaeth y ffermwyr dig newid eu hedrychiad, a sut y dechreuodd 'Terfysgoedd Rebeca'?
3. Pa dystiolaeth sydd yn Ffynonellau 4 a 6 ynghylch y dulliau eithafol yr oedd y protestwyr yn barod i'w defnyddio?
4. Astudiwch Ffynhonnell 6. Pa dystiolaeth sydd yn y ffynhonnell hon bod 'Rebeca' yn brotest boblogaidd?
5. Sut mae Ffynhonnell 7 yn egluro'r rhesymau pam roedd y ffermwyr yn casáu'r tollbyrth?
6. Astudiwch Ffynonellau 6 ac 8. Pa dystiolaeth sydd yn y ffynonellau hyn i awgrymu nad y tollbyrth oedd yr unig reswm dros Derfysgoedd Rebeca?
7. Rhowch dri rheswm posibl dros y dedfrydau llym iawn a roddwyd gan y barnwr yn Ffynhonnell 10.
8. Pa dystiolaeth sydd yn Ffynhonnell 6 a Ffynhonnell 11 i awgrymu bod y llywodraeth yn poeni'n fawr am Derfysgoedd Rebeca?
9. Heb gamerâu a chyfarpar ffotograffig modern, roedd papurau newydd ar y pryd yn dibynnu ar ddarluniau. Pa mor ddibynadwy a chywir yw Ffynonellau 2 a 5?

GWEITHGAREDD 1

Defnyddiwch y tabl isod i helpu i wneud dadansoddiad manwl o ddibynadwyedd pob un o'r ffynonellau hyn.

Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell?	Pa wybodaeth y gallwch ei chael o'r ffynhonnell hon? A yw'r wybodaeth hon yn fanwl neu'n gyfyngedig mewn unrhyw ffordd?
Pa resymau sydd dros gredu'r ffynhonnell?	Beth sy'n gwneud y ffynhonnell hon yn gredadwy ac yn ddibynadwy? A yw, er enghraifft, yn ddogfen swyddogol gan y llywodraeth, yn dystiolaeth uniongyrchol gan lygad-dyst, neu'n cyfateb i ffynonellau dibynadwy eraill?
A oes unrhyw resymau dros amau'r ffynhonnell?	A allai'r ffynhonnell neu rannau ohoni fod yn annibynadwy, er enghraifft, a allai fod yn anghywir, yn gelwydd, yn rhagfarnllyd neu wedi'i gorliwio? A yw ffynonellau eraill yn anghytuno ac a yw'r rhain yn fwy dibynadwy?

GWEITHGAREDD 2: DEALL A DEFNYDDIO PESTLE

Bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i ddysgu i adnabod yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol ac amgylcheddol (PESTLE) ar y pwnc hwn.

Astudiwch Ffynhonnell 9 am achosion Terfysgoedd Rebeca yn y Pecyn Ffynonellau. Llenwch y tabl isod gan nodi yn y golofn ar yr ochr dde wybodaeth o'r ffynhonnell hon sy'n ymwneud â phob un o ffactorau PESTLE.

PESTLE	DIFFINIAD	ENGHREIFFTIAU O'R PECYN FFYNONELLAU
ACHOSION GWLEIDYDDOL	Barn a gweithredoedd llywodraethau a gwleidyddion	
ACHOSION ECONOMAIDD	Materion busnes a gwneud arian	

GWEITHGAREDD 2

PESTLE	DIFFINIAD	ENGHREIFFTIAU O'R PECYN FFYNONELLAU
ACHOSION CYMDEITHASOL	Ffactorau cymdeithasol a chrefyddol a ddylanwadodd ar y terfysgwyr	
TECHNOLEGOL	Adeiladu'r tollffyrdd a'r tollbyrth	
CYFREITHIOL	Cyfreithiau sy'n ymwneud a'r Ymddiriedolaethau Tyrpegau a thollbyrth	
AMGYLCHEDDOL	Effaith y tollbyrth ar yr amgylchedd	

INDIA FODERN

GWEITHGAREDD 3: DADANSODDI HYGREDEDD Y FFYNONELLAU

Byddwch yn gwybod o'ch gwersi hanes pa mor bwysig yw gallu dadansoddi ffynonellau a thynnu gwybodaeth ohonynt. Rhaid i chi ddangos eich gallu i ddadansoddi ffynonellau'n effeithiol wrth gyflwyno eich barn bersonol. Wrth ddadansoddi ffynonellau, mae hefyd yn bwysig iawn ystyried pa mor gredadwy neu ddibynadwy yw'r ffynonellau ac i ba raddau y gallwch ymddiried yn y wybodaeth sydd ynddynt.

Astudiwch y ffynonellau yn y pecyn sy'n ymwneud â'r gwrthwynebiad i dollau ffyrdd a thollbyrth yn India fodern ac atebwch y cwestiynau a ganlyn:

1. Astudiwch Ffynhonnell 12. Pam mae angen rhagor o ffyrdd ar India a pham mae llywodraeth India yn caniatáu i gwmnïau preifat eu hadeiladu?
2. Yn ôl y ffynonellau hyn, pa ddulliau a ddefnyddiwyd gan y protestwyr a ymosododd ar y tollbyrth yn India yn

ddiweddar? Os ydych wedi astudio Terfysgoedd Rebeca yng ngorllewin Cymru yn y 19eg ganrif, nodwch ddau ddull tebyg o brotestio ac un dull gwahanol o brotestio a ddefnyddiwyd gan y protestwyr yng Nghymru ac yn India.

3. Astudiwch Ffynonellau 17 ac 18. Pam mae'r gwaith o adeiladu ffyrdd newydd yn rhai rhannau o India yn beryglus i'r amgylchedd?
4. Pa mor effeithiol yw'r cyfreithiau i ddiogelu'r amgylchedd, yn ôl y ffynonellau hyn?
5. Er bod disgrifiadau o Derfysgoedd Rebeca mewn papurau newydd yn y 19eg ganrif, heb gamerâu modern, roedd yr adroddiadau'n dibynnu ar ddarluniau. Mae pethau'n wahanol iawn heddiw. Meddyliwch am ffynonellau lluniau mewn papurau newydd ar gyfer digwyddiadau pwysig heddiw a pha mor ddibynadwy ydynt.

GWEITHGAREDD 3

Defnyddiwch y tabl isod i helpu i lunio dadansoddiad manwl o ddibynadwyedd pob un o'r ffynonellau hyn.

Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell?	Pa wybodaeth y gallwch ei chael o'r ffynhonnell hon? A yw'r wybodaeth hon yn fanwl neu'n gyfyngedig mewn unrhyw ffordd?
Pa resymau sydd dros gredu'r ffynhonnell?	Beth sy'n gwneud y ffynhonnell hon yn gredadwy ac yn ddibynadwy? A yw, er enghraifft, yn ddogfen swyddogol gan y llywodraeth, yn dystiolaeth uniongyrchol gan lygad-dyst, neu'n cyfateb i ffynonellau dibynadwy eraill?
A oes unrhyw resymau dros amau'r ffynhonnell?	A allai'r ffynhonnell neu rannau ohoni fod yn annibynadwy, er enghraifft, a allai fod yn anghywir, yn gelwydd, yn rhagfarnllyd neu wedi'i gorliwio? A yw ffynonellau eraill yn anghytuno ac a yw'r rhain yn fwy dibynadwy?

GWEITHGAREDD 4: DEALL A DEFNYDDIO PESTLE

Bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i ddysgu sut i adnabod yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol ac amgylcheddol (PESTLE) ar y pwnc hwn.

Mae Ffynonellau 12, 17 ac 19 yn rhoi gwybodaeth am achosion y protestiadau yn erbyn y tollbyrth yn India. Llenwch y tabl isod drwy nodi yn y golofn ar yr ochr dde y wybodaeth o'r ffynonellau hyn sy'n cysylltu â phob un o'r ffactorau PESTLE.

PESTLE	DIFFINIAD	ENGHREIFFTIAU O'R PECYN FFYNONELLAU
ACHOSION GWLEIDYDDOL	Barn a gweithredoedd llywodraethau a gwleidyddion	
ACHOSION ECONOMAIDD	Materion busnes a gwneud arian	

GWEITHGAREDD 4

PESTLE	DIFFINIAD	ENGHREIFFTIAU O'R PECYN FFYNONELLAU
ACHOSION CYMDEITHASOL	Ffactorau cymdeithasol a chrefyddol a ddylanwadodd ar y terfysgwyr	
TECHNOLEGOL	Adeiladu'r tollffyrdd a'r tollbyrth	
CYFREITHIOL	Cyfreithiau sy'n ymwneud â thollffyrdd a thollbyrth	
AMGYLCHEDDOL	Effaith y tollbyrth ar yr amgylchedd	

GWEITHGAREDD 5: YSGRIFENNU SAFBWyNT PERSONOL

Paratowch safbwynt personol ar y pwnc tlodi ac anghydraddoldeb ac adeiladu ffyrdd (o leiaf 3-4 ochr A4). Gallwch ddefnyddio unrhyw wybodaeth neu ffynonellau yr ydych wedi'u hastudio.

Cofiwch gynnwys:

- Gwybodaeth am agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE) ar y pwnc
- Eich barn bersonol am Dlodi, Ymfudo a Llafur Plant

Cynllun Posibl:

Dechreuwch drwy wneud nodiadau o'r ffynonellau. Dewch o hyd i wybodaeth ac ysgrifennwch am:

- Y rhesymau pam mae llywodraethau'n caniatáu i gwmnïau preifat adeiladu ffyrdd, pwy sy'n gwneud arian o hyn a beth yw eich barn am hynny
- Y rhesymau dros y tlodi a'r anghydraddoldeb a achosir gan adeiladu ffyrdd. Beth yw eich barn am hyn a phwy sydd ar fai
- Peryglon adeiladu ffyrdd a thollau i iechyd a'r amgylchedd. Beth yw eich barn am hyn a phwy sydd ar fai
- Cyfreithiau sy'n rheoli adeiladu ffyrdd a thollau a pha mor effeithiol ydynt. Beth yw eich barn am hyn a phwy sydd ar fai

PWYSIG

- » Gwnewch sylw am ddibynadwyedd y ffynonellau ac i ba raddau y gallwch ymddiried yn y wybodaeth sydd ynddynt
- » Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio at bob un o'r ffactorau PESTLE, h.y. yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol ar y pwnc

Gan ddefnyddio eich nodiadau, ysgrifennwch ddatganiad personol (3-4 ochr A4) ar y pwnc tlodi, anghydraddoldeb a phrotestio.




GWEITHGAREDD 6: GWEITHGAREDD CODI YMWHYBYDDIAETH

Fel unigolyn neu fel tîm (yn cynnwys 3-6 o aelodau), datblygwch weithgaredd i godi ymwybyddiaeth o dlodi, anghydraddoldeb a phrotestio ar gyfer myfyrwyr ifanc a'i roi ar waith.

Cyflwynwch eich syniadau ar gyfer **Pecyn Codi Ymwybyddiaeth** sy'n cynnwys tystiolaeth sy'n dangos:

- sut y gwnaethoch lunio'r syniadau ar gyfer **Codi Ymwybyddiaeth**
- sut a pham y gwnaethoch ddewis y syniad gorau
- eich cynlluniau ar gyfer sut y gellid datblygu a gweithredu eich syniad
- manylion unrhyw dechnegau priodol ar gyfer datrys problemau a gwneud penderfyniadau y byddwch angen eu dysgu, eu datblygu a'u defnyddio
- y deunyddiau a'r adnoddau y bydd eu hangen arnoch

Bydd ymweld â Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, neu unrhyw un o amgueddfeydd eraill Amgueddfa Cymru, yn rhoi syniad rhagorol i chi o sut mae amgueddfeydd yn Codi Ymwybyddiaeth o faterion drwy eu defnydd o adnoddau a'r ffordd y maent yn cyflwyno hanes.





HER FER DINASYDDIAETH FYD-EANG AMGUEDDFA CYMRU

Dyma her i chi ymchwilio i'r pwnc **Tlodi** ac **Anghydraddoldeb** yn y byd modern.

I baratoi ar gyfer yr Her Fer hon, rydych wedi astudio ffynonellau ac wedi ymweld ag amgueddfeydd, sydd wedi rhoi dealltwriaeth dda i chi o dlodi ac anghydraddoldeb yn seiliedig ar dollau ffyrdd yng Nghymru yn y 19eg ganrif ac yn India fodern. Rydych nawr yn barod i gwblhau Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang Amgueddfa Cymru drwy ymchwilio i'r pwnc hwn wrth edrych ar bynciau a gwledydd tebyg yn y byd modern.